Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 16/10/17 News

Ymweliad a Phentrellyncymer Visit

Bydd plant Bl 3 a 4 yn mynd ar ymweliad dros nos a Phentrellyncymer yfory tan Ddydd Mercher gyda plant Ysgol Bro Cinmeirch. Byddant yn gadael yr ysgol tua 9.30am ac yn dychwelyd tua **5pm dydd Mercher.** Cofiwch fod angen pecyn bwyd i ginio yfory. Dwi'n siwr y byddant yn cael amser bendigedig yn gwneud gweithgareddau anturus yn yr awyr agored. *Yr 3 & 4 children will be going on an overnight visit to Pentrellyncymer tomorrow until Wednesday with children from Ysgol Bro Cinmeirch. They will leave school around 9.30am and return around **5pm on Wednesday**. Remember that they will need a packed lunch for tomorrow. I'm sure that they will have a great time doing all sorts of adventurous outdoor activities*.

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Harri, Gwydion, Owen, Megan a Gabriella am fod yn Sêr yr Wythnos. Da iawn chi!

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

17-18/10/17 Ymweliad dros nos Bl 3 a 4 i Bentrellyncymer / *Yr 3 & 4 overnight visit to Pentrellyncymer.*
17/10/17 Clwb Chwaraeon Bl 5 a 6 *Sports Club*
19/10/17 Twrnament Pêl Droed yr Urdd *Football Tournament- Llanfwrog.*
24/10/17 Clwb Garddio Bl 5 a 6 **Grwp 1** *Gardening Club*
24/10/17 Clwb Chwaraeon Bl 3 a 4 *Sports Club*
25/10/17 Twrnament Pel Droed Dyffryn Clwyd / *Vale of Clwyd Football Tournament.* Ysgol Brynhyfryd am.
26/10/17 Cyfarfod Diolchgarwch / *Harvest Service*
27/10/17 Disgo Calan Gaeaf Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Halloween Disco* Canolfan Cae Cymro.
27/10/17 Cau dros hanner tymor / *Close for half term*
6/11/17 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
7/11/17 Plant yn ôl / *Children start back in school*
13/11/17 Bocsys Operation Christmas Child *Boxes*
14/11/17 Noson Rieni CA2 / *KS2 Parents Evening* 3.30pm – 7.30pm
16/11/17 Noson Rieni CS / *FPh Parents Evening* 3.30pm – 7.30pm
17/11/17 Diwrnod Plant mewn Angen / *Children in Need Day*
25/11/17 Cylch Meithrin yn trefnu Bws i Lerpwl i Siopa / *Bus to Liverpool Shopping trip organized by Cylch Meithrin Clocaenog*
7/12/17 – Ffair Nadolig Cyfeillion yr Ysgol / Friends of the School Christmas Fair – Festri Capel Cyffylliog Chapel Vestry
19/12/17 Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol / *School's Christmas Service* – Capel Cyffylliog *Chapel* 6.30pm
22/12/17 Cau dros wyliau'r Nadolig / *Close for Christmas holiday*
8/1/18 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
9/1/18 Plant yn ôl / *Children start back in school*
29-31/1/18 Ymweliad Bl 5 a 6 â Chaerdydd / *Yr 5 & 6 Cardiff visit*

Traws Gwlad / *Cross Country*

Yn anffodus cafodd y trawsgwlad ei ohurio oherwydd fod y caeau yn rhy wlyb. Nid ydym wedi cael dyddiad arall eto. *Unfortunately the cross country was cancelled because the ground was very wet. We haven't had another date for the event as yet.*

Operation Christmas Child

Byddwn yn cymeryd rhan yn ymgyrch Operation Christmas Child eto eleni ble cewch y cyfle i lenwi bocs esgidiau gyda anrhegion a'i yrru i blant anghenus. Er mwyn gwybod mwy ewch i http://www.samaritanspurse.org/operationchristmas-child/pack-a-shoe-box/

We will be taking part in the Operation Christmas Child campaign this year. You can fill a shoe box with gifts and they will be sent to less fortunate children for Christmas. For more information go to

http://www.samaritanspurse.org/operationchristmas-child/pack-a-shoe-box/

Meithrin a Derbyn yn dysgu am fwyd
Nursery and Reception learning about food.

Daeth Paula Roberts, cydlynydd Ysgolion Iach Sir Ddinbych i roi gweithdy i'r plant Meithrin a Derbyn am fwyd. *Paula Roberts, our Healthy Schools coordinator came to work with Nursery and Reception to teach them more about food.*

Gweithdy Gwrth Fwlio
Anti Bullying Workshop

Aeth pedwar aelod o'r Cyngor Ysgol i Ddinbych yr wythnos diwethaf i rannu syniadau gyda phlant eraill o'r Sir ynglyn a gweithgareddau ar gyfer wythnos gwrth-fwlio ym mis Tachwedd. Daethant yn ôl yn llawn syniadau da. *Four members of the School Council went to Denbigh to share ideas with other pupils from the County about activities for Anti Bullying week which will take place in November. They came back full of good ideas.*

Sioe Laeth Cymru / *Welsh Dairy Show*

Bu plant yr ysgol yn brysur yn creu posteri i ddangos amlbwrpasedd llaeth cyn gwyliau'r haf. Rydym yn falch iawn fod Ella Jones wedi dod yn 3ydd drwy Gymru ac fe fydd yn mynd i nol ei gwobr yn y Sioe Laeth yr wythnos nesaf. *KS2 children all created posters to show the versatility of milk before the summer holidays. We are very happy that Ella Jones came 3rd throughout Wales and will be going to the Welsh Dairy show to receive her prize next week.*

Jambori

Hwyl yn y Jambori / *Fun in the Jamboree*.

Prosiect Sbectrwm / Spectrum Project

Fel rhan o ymdrech Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais ar sail Rhyw a Thrais Rhywiol, mae Prosiect Sbectrwm gan Hafan Cymru wedi cael **cyllid** i **godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig** a materion cysylltiedig. Cafodd plant Bl 1 a 2 a Bl 5 a 6 weithdai yr wythnos yma. Bydd y plant a'r staff yn cael gweithdy arall cyn hanner tymor i godi ymwybyddiaeth o'r pwnc pwysig yma.

As part of the drive by the Welsh Government to tackle Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence, Hafan Cymru's Spectrum Project has been funded to ***raise awareness of Domestic Abuse*** *and associated issues in primary schools in Wales. Yr 1 & 2 and Yr 5 & 6 had workshops this week and the staff and the children will have another workshop before half term to raise awareness of this important issue.*

Twrnament Pêl Droed Yr Urdd
Football Tournament

Bydd y tim pêl droed yn cystadlu yn nhwrnament yr Urdd dydd Iau yng Nghanolfan Llanfwrog. Bydd angen iddynt ddod a pecyn bwyd i ginio. *The Urdd football tournament will take place on Friday at Llanfwrog Centre. The children will need a packed lunch.*

Tim / *Team*: Cian, Gwion, Tomos, Gruff. Deian, William a Jac.

Pob lwc! Good Luck!

Gwasanaeth Diolchgarwch
Harvest Service

Bydd yr ysgol yn cael Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Clocaenog pnawn Iau nesaf Hydref 26ain**.** Oherwydd fod yr eglwys yn fach ni fydd lle i rieni ymuno a ni. Bydd Eluned Yaxley yn dod i siarad gyda'r plant ynglyn a'i gwaith gyda Hosbis Plant Tŷ Gobaith a bydd casgliad at yr elusen yma. Bydd plant ardal Clocaenog yn aros yng Nghlocaenog yn dilyn y gwasanaeth. Oherwydd hyn fe fydd y bysiau mini yn cychwyn adref tua 15 munud yn gynt gan y bydd pawb yng Nghlocaenog ac felly yn cyrraedd adref 15 munud yn gynt

We will be having a Harvest Service at Clocaenog Church next Thursday November 26th. As the church is very small there will be no room for parents to join us. Eluned Yaxley from Hope House Children's Hospice will be coming to talk to the children and there will be a collection towards this charity on the day. The Clocaenog area children will be staying in Clocaenog after the service and therefore the mini buses will be starting home 15 minutes earlier on this day as all the children will be in Clocaenog, and therefore the children will be home 15 minutes earlier.

the freepress

Lluniau Derbyn
Free Press
Reception Photos

Bydd llun plant y dosbarth Derbyn yn y Free Press yr wythnos yma. Cofiwch ei brynu!!

There will be aphoto of the Reception class children in the FreePress this week – remember to buy!

Operation Christmas Child

Codwch galonau plant mewn llefydd tlawd wrth lenwi bocs.
Make children happy by filling a box.

Rhowch bethau hoffwch chi gael ynddo.
Put things you would like yourself in it.

Mae'r bocs angen bod mewn erbyn **Tachwedd 13**
The box must be in by **November 13**